EISTEDDFOD

# Polisi Pryderon a Chwynion Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Fwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol, gwirfoddolwyr, perfformwyr ac artistiaid sy'n ymwneud â'r Eisteddfod. Mae gan yr Eisteddfod bolisi a gweithdrefn gwyno benodol ar gyfer ei staff.

Mae'r Eisteddfod wedi ymrwymo i fod yn ŵyl gynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth yn ei holl weithgareddau a gweithdrefnau, ac i sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd, cefndir, cred, crefydd, hil, oedran, rhyw, rhywedd na rhywioldeb (Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod, 2022).

Os yw'r pryder neu gŵyn yn ymwneud â mater sy'n gysylltiedig â gwarchod plant, pobl ifanc neu oedolion bregus, bydd yr Eisteddfod yn gweithredu drwy ddilyn y broses a nodir ym Mholisi Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl yr Eisteddfod.

Os yw'r pryder neu gŵyn yn ymwneud â mater sy'n gysylltiedig â bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, bydd yr Eisteddfod yn gweithredu drwy ddilyn y broses a nodir yn y Polisi Parch yng Ngwaith a Gweithgareddau'r Eisteddfod.

Mae trefn gwynion ar wahân ar gyfer materion sy'n ymwneud â chystadlaethau'r Eisteddfod, a nodir hyn yn y Rhestr Testunau ac yn y Porth Cystadlu ar wefan yr Eisteddfod.

## Datrys Anffurfiol

Bydd yr Eisteddfod yn ymdrechu i ddatrys unrhyw bryder neu gŵyn yn anffurfiol os yn bosibl, a hynny mewn ysbryd cydweithredol.

Dylai unrhyw un fynegi pryder neu gŵyn yn y lle cyntaf wrth yr aelod o staff sy'n gyfrifol am brosiect neu gynllun perthnasol a / neu benodol.

## Proses Ffurfiol

Os na lwyddir i ddatrys y pryder neu gŵyn yn anffurfiol, bydd yr aelod o staff perthnasol neu'r Prif Weithredwr yn gofyn i chi gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig, gan nodi'n glir eich bod yn dymuno 'cyflwyno cwyn o dan Bolisi Pryderon a Chwynion yr Eisteddfod'. Dylai unrhyw gŵyn ysgrifenedig egluro natur a sail y gŵyn a'r canlyniad a ddymunir.

Bydd yr Eisteddfod yn cydnabod derbyn cwynion ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith ac yn ymchwilio i'r mater yn fewnol.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff, neu os yw'n gŵyn gyffredinol am yr Eisteddfod, dylid cysylltu â Phrif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, betsan@eisteddfod.cymru, er mwyn dilyn y polisi a gweithdrefn gwyno benodol ar gyfer staff.

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am y Prif Weithredwr i Gadeirydd Pwyllgor Adnoddau Dynol yr Eisteddfod, neu os yw'n ymwneud ag aelod o'r Bwrdd dylid ei hanfon at Ysgrifennydd y Bwrdd Rheoli.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â gwaith grŵp neu bwyllgor, dylid atal y person sy'n gyfrifol am yr ymddygiad honedig o fynychu'r grŵp neu bwyllgor nes bod y gŵyn wedi ei datrys.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag artist neu berfformiwr llawrydd, dylid atal y person sy'n gyfrifol am yr ymddygiad honedig rhag ymgymryd ag unrhyw rôl sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod nes bod y gŵyn wedi ei datrys.

## Ymchwiliad

Bydd y person a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn, sef yr aelod o staff sy'n gyfrifol am brosiect neu faes penodol neu'r Prif Weithredwr, yn ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddogfennau, nodiadau o sgyrsiau, negeseuon e-bost, testun, Whatsapp ayb, sy'n rhan o'r pryder neu gŵyn.

Efallai y bydd yr ymchwilydd yn gofyn am gyfarfod i drafod y mater dan sylw, ac yn cyfweld unrhyw berson mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy ac unrhyw dystion perthnasol sydd wedi'u henwi yn y pryder neu gŵyn.

Gall yr ymchwilydd argymell camau penodol i'w cymryd mewn ymateb i'r pryder neu gŵyn, ac mae'r rhain yn cynnwys cyfeirio'r pryder neu gŵyn at aelodau Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod.

Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a / neu Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd ac yn hysbysu'r bobl berthnasol o'u penderfyniad. Gwneir hyn o fewn 28 diwrnod gwaith o dderbyn y pryder neu gŵyn ysgrifenedig ffurfiol.

Os yw'r pryder neu gŵyn yn ymwneud ag aelod o Fwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol yr Eisteddfod, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gall yr Eisteddfod benderfynu i'w diarddel o'r pwyllgor neu grŵp.

Os yw'r pryder neu gŵyn yn ymwneud ag artist neu berfformiwr llawrydd, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gall yr Eisteddfod benderfynu dileu cytundeb neu beidio â chynnig gwaith llawrydd i unigolyn yn y dyfodol.

## Hawl i Apelio

Mae gan unrhyw un sy'n anghytuno â'r penderfyniad yr hawl i apelio'n ei erbyn drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd Rheoli, ysgrifennydd@eisteddfod.cymru.

Dylid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd o fewn pum niwrnod gwaith o'r hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad y pryder neu gŵyn gan nodi sail yr apêl yn eglur.

Bydd yr Ysgrifennydd yn cynnal ymchwiliad i sail yr apêl a'r holl dystiolaeth berthnasol ac yn hysbysu'r sawl a gyflwynodd yr apêl o'r canlyniad o fewn 21 diwrnod gwaith. Bydd y canlyniad yn derfynol ac ni fydd hawl bellach i apelio.